PPL1GEN1

Cynnal iechyd a diogelwch ym maes lletygarwch

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymdrin ag iechyd a diogelwch sylfaenol mewn amgylchedd lletygarwch. Mae'r safon yn cynnwys y gweithdrefnau canlynol i gadw'r gweithle'n iach ac yn ddiogel: helpu i sylwi ar beryglon yn y gweithle yn brydlon a delio â nhw yn unol â gweithdrefnau'r gweithle, a dilyn gweithdrefnau mewn argyfwng os bydd digwyddiadau neu ddamweiniau.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r safon hon byddwch wedi dangos eich dealltwriaeth o'r canlynol, a'ch gallu i'w gyflawni:

•Cynnal iechyd a diogelwch ym maes lletygarwch

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Canfod unrhyw beryglon neu beryglon posibl yn eich man gwaith
2. Delio ag unrhyw beryglon a ganfyddir yn gywir
3. Rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau, neu ddamweiniau fu bron â digwydd, yn gyflym ac yn fanwl gywir i'r person priodol
4. Dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch eich sefydliad yn eich holl waith
5. Ymarfer gweithdrefnau argyfwng yn gywir
6. Dilyn gweithdrefnau diogeledd eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Eich cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
2. Pam mae'n bwysig gweithio mewn ffordd iach a diogel
3. Y mathau o gyfarpar diogelu personol sydd i gael eu gwisgo
4. Ble gallwch gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn eich gweithle
5. Y mathau o beryglon y gallech ddod ar eu traws yn eich gweithle a sut i ddelio â'r rhain o fewn terfynau eich awdurdod chi
6. Sut i rybuddio pobl eraill am beryglon a pham mae hyn yn bwysig
7. Pam a sut y dylech roi gwybod am ddamweiniau a damweiniau fu bron â digwydd ac i bwy y dylech roi gwybod amdanyn nhw
8. Y mathau o ddigwyddiadau ac argyfyngau a all ddigwydd yn eich gweithle
9. Sut i ddilyn gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer delio â digwyddiadau ac argyfyngau a pham mae'n bwysig gwneud hynny
10. Ble i ddod o hyd i gyfarpar cymorth cyntaf a phwy yw'r swyddog cymorth cyntaf penodedig yn eich gweithle
11. Ffyrdd o weithio'n ddiogel sy'n berthnasol i'ch swydd chi, gan gynnwys technegau codi a thrin diogel, a pham mae'r rhain yn bwysig
12. Achosion posibl tân yn eich gweithle a beth allwch ei wneud i leihau risg tân i'r eithaf
13. Ble i ddod o hyd i larymau tân, pryd a sut i'w seinio
14. Pam na ddylech byth mynd yn agos at dân oni fo'n ddiogel gwneud hynny
15. Pam mae'n bwysig dilyn rheoliadau diogelwch tân

Cwmpas/Ystod

1. Peryglon
1.1 yn ymwneud â chyfarpar
1.2 yn ymwneud â mannau lle rydych yn gweithio
1.3 yn ymwneud â dillad personol

2. Ffyrdd o ddelio â pheryglon
2.1 eu hunioni eich hun
2.2 rhoi gwybod amdanyn nhw i gydweithwyr priodol
2.3 rhybuddio pobl eraill

3. Gweithdrefnau mewn argyfwng
3.1 tân
3.2 bygythiad
3.3 diogeledd

PPL1GEN1

Cynnal iechyd a diogelwch ym maes lletygarwch

PPL1GEN1

Cynnal iechyd a diogelwch ym maes lletygarwch

Datblygwyd gan	People 1st
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2016
Indicative Review Date	Mawrth 2021
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	People 1st
RCU gwreiddiol	PPL1GEN1/09
Galwedigaethau perthnasol	Aelod o'r tîm; Gweinydd/Gweinyddes; Staff bar; Cogydd; Pen-cogydd; Cynorthwy-ydd cegin; Howscipar; Gwasanaethydd ystafell (cadw tŷ); Morwyn ystafell; Derbynnydd; Technegydd Systemau Dosbarthu Diodydd; Technegydd y Tim Cynnal a Chadw
Cyfres/Set	Lletygarwch - Cyffredinol; Cynhyrchu a Choginio Bwyd; Systemau Dosbarthu Diodydd
Geiriau Allweddol	amgylchedd; gweithio; diogel